**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children, Older People & Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : MA – P/HID/2091/18

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Mehefin 2018

Annwyl John,

Diolch ichi am eich llythyr 30 Mai ynghylch gohebiaeth sydd wedi dod i law oddi wrth Julie Morgan AC mewn cysylltiad â dod â Grant Byw'n Annibynnol Cymru (WILG) i ben.

Fel y nodais yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 23 Mai, ar ddiwedd mis Mawrth eleni roedd rhyw 75% o'r 1,300 o bobl a oedd wedi bod yn cael taliadau o dan WILG naill ai wedi cwblhau, neu wrthi'n cwblhau'r adolygiad o'u hanghenion cymorth yn y dyfodol gyda'u hawdurdod lleol. O ganlyniad roedd dros un rhan o dair o'r holl bobl a oedd yn cael taliadau - tua 400 o bobl - bellach yn cael eu hanghenion cymorth i fyw'n annibynnol wedi'u talu gan eu hawdurdod lleol, naill ai'n uniongyrchol gan yr awdurdod neu drwy gael taliadau uniongyrchol oddi wrth yr awdurdod i drefnu'r cymorth hwn eu hunain.

Roedd hyn yn gadael cyfanswm o ryw 900 o bobl bryd hynny naill ai i gwblhau eu hadolygiad lle'r oeddent wedi'i ddechrau, neu i ddechrau ar yr adolygiad er mwyn ei gwblhau. Fel y dywedais yn fy Natganiad Ysgrifenedig rhaid i bob adolygiad o anghenion cymorth pobl yn y dyfodol gael eu cwblhau erbyn diwedd Medi eleni. Rydym ar fin gofyn am y data monitro chwarterol yr ydym yn ei gael oddi wrth yr awdurdodau lleol am y broses hon a byddwn yn disgwyl i'r data hwn ddangos, am y cyfnod ers mis Mawrth, fod nifer yr achosion heb eu datrys wedi lleihau ymhellach

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn achos y bobl hynny sydd bellach yn cael eu cymorth oddi wrth yr awdurdod lleol, mae'r awdurdodau hyn yn dweud bod cynnydd wedi bod yn y cymorth a roddir i rai, ond bod y mwyafrif wedi cael cymorth tebyg i'r lefel yr oeddent yn ei gael trwy eu taliad WILG. Mewn nifer bach o achosion yn unig y mae eu cymorth wedi gostwng, yn enwedig lle Mae awdurdodau wedi nodi nad oedd Gwasanaethau a delir am ddefnyddio taliadau o dan WILG o natur gofal cymdeithasol. Lle mae hyn wedi digwydd, mae'r awdurdodau'n gweithio trwy'r rhain gyda'r bobl yr effeithir arnynt er mwyn dod o hyd i ateb boddhaol. Wedi dweud hynny, nid yw hyn yn ymwneud â’r cwestiwn a yw pobl yn cael llai neu fwy o gymorth o ganlyniad i'r adolygiad o'u hanghenion yn y dyfodol gyda'u hawdurdod lleol. Mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl anabl yn cael y cymorth priodol y mae ei angen i gyflawni eu canlyniadau llesiant a'u bod yn gallu byw'n annibynnol gartref.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Plant, Pobl Hyn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People & Social Care